

## SYMUD YMLAEN MOVING FORWARD

Mae prosiect Symud Ymlaen / Moving Forward yn darparu mynediad gwell at gyflogaeth ac hyfforddiant i bobl ifanc sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ieuencid ac i'r rheini sy'n gadael y system gofal. Mae'r prosiect yn cefnogi pobl ifanc i wella'u sgiliau cyflogadwyedd gyda'r nod o wneud lleoliad gwaith â thâl am chwe mis gydag ystod o gyflogwyr ledled Cymru. I'r bobl ifanc hynny sy angen cefnogaeth ychwanegol, rydym yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra mewn Llythrennedd, Rhifedd a TGCh yn ogystal â mentor gwirfoddol i helpu gydag unrhyw anghenion pellach.

### Yn Ôl Ar Y Trywydd Iawn...

Mae dyn ifanc balch iawn sy wedi cwblhau'r prosiect SYMF yng Ngogledd Cymru wedi profi'n ased mor werthfawr, mae e wedi derbyn cynnig swydd gan Reilffordd Eryri.

Bu GISDA ac Ymddiriedolaeth Adeiladu Ieuencid yn ei gefnogi trwy gydol y prosiect ac mae'r ddau yn cytuno ei fod wedi gweithio'n galed iawn i oresgyn llawer o broblemau yn ei fywyd ac mae'n haeddiannol iawn o'i swydd newydd.

Cyn hyn, roedd e wedi bod mewn trafferth gyda'r heddlu ac roedd yn ei chael hi'n amhosibl dod o hyd i waith oherwydd ei gofnod troseddol, cymryd cyffuriau a'i ddiffyg cymhellaint.

Yn ystod ei gyfnod ar y prosiect, enillodd achrediaidau mewn Paratoi i'r Gwaith a Phrofiad Gwaith, ac achrediad L1 mewn Cyflwyniad i Fecaneg.

Ers iddo gwblhau'r prosiect a derbyn cynnig cyflogaeth hir-dymor, mae e bellach yn teimlo'n hyderus y gallai ddod o hyd i waith eto yn y dyfodol gan fod gyda fe'r profiad, y cysylltiadau a'r cymwysterau sydd eu hangen.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect, ymwelwch â gwefan SYMF

[www.symfwales.org.uk](http://www.symfwales.org.uk)

### Mae Tom ar ei ffordd i'r brig

Tom oedd y person cyntaf i gael ei gyfeirio i'r CBSA ac roedd yn chwilio am leoliad mewn mecaneg. Daeth o hyd i leoliad yn fuan. Fodd bynnag, doedd e ddim yn hapus yn y garej, gan fod e'n teimlo ei fod yn dilyn yr yrfa yr oedd disgwyl iddo ei dilyn, yn hytrach na'r yrfa yr oedd e wir eisiau ei dilyn.

Yn ystod ei hyfforddiant gyda'r CBSA, daeth yn amlwg i'r tîm y byddai ei natur gyfeillgar, agored, yn addas ar gyfer rôl mewn gwasanaethu cwsmeriaid, ac fe gytunodd Tom i brofi rôl mewn manwerthu ar ôl cael cynnig swydd fel cynorthwydd siop yn Vapourlicious yn Rhydaman.

Roedd Tom yn ddydd busnes naturiol wrth brosesu gwerthiannau ac archebion ac adeiladodd berthynas gref gyda'r cwsmeriaid a'i gydweithwyr. Pan gododd y cyfle i Tom weithredu'n rheolwr y siop am gyfnod byr oherwydd salwch aelod o'r staff, rhagorodd ar y cyfle a llwyddodd i wella ar dargedau gwerthu'r siop bob dydd.

O weld ei botensial, gofynnodd Vapourlicious i Tom gefnogi agoriad siop newydd, ac mae e ar hyn o bryd yn ymwneud â phob agwedd o fanwerthu, o farsiantiaeth i reoli'r stoc, i werthu ac hyfforddi.

Dywedodd Andrew Douglas ELO CBSA, "Gwelon ni SYMF ar ei orau yn y ffordd y bu'n cefnogi Tom. Buon ni'n hyblyg gyda'i leoliadau a cheisio ei helpu i gydnabod ei gryfderau a dod o hyd i gynllun ar gyfer yrfa newydd. Tom yw nid yn unig y person cyntaf i gael ei gyfeirio i'r CBSA, ond fe yw Rheolwr cyntaf dan Hyfforddiant y prosiect hefyd."



### Paru Gyda'r Bobl Iawn

Mae ardaloedd gwledig yng Nghymru'n dioddef o broblemau fel camddefnyddio alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gymaint â'r ardaloedd dinesig gan fod cyfleoedd i weithio'n brin, mae trafniadaeth gyhoeddus yn gyfyngedig ac mae tlodi syweddol yn bodoli. Mae'r CBSA wedi bod yn gweithio gyda Jasmine o Sir Benfro, sy'n troi ei bywyd o gwmpas gyda chefnogaeth y prosiect SYMF a'i chyflogwr.

Pan rhoddwyd ei fflat ei hunan iddi, roedd Jasmine yn fregus a dechreuodd gwerthwyr cyffuriau ddefnyddio ei fflat fel lle i gwrdd. Roedd yn anochel iddi ddechrau cymryd sylweddau ei hunan. Bu Jasmine yn esgeuluso ei hymddangosiad, a bu'n anghofio bwyta, ac roedd yn ymddangos yn fregus oherwydd hyn.

Yn y diwedd, rhoddwyd cefnogaeth i Jasmine er mwyn iddi reoli ei chamddefnyddio sylweddau ac fe gafodd ei chyfeirio i'r prosiect SYMF. Cafodd Jasmine ei pharu gyda chyflogwr ardderchog a oedd wedi sefydlu ei busnes maeth a deieteg ei hun, Health Aspire yn Sir Benfro. Yn ogystal â dysgu sgiliau i'r gweithle, roedd y CBSA yn teimlo y byddai dysgu am faeth a sut i ofalu dros ei hunan yn ddelfrydol i Jasmine.

Dywedodd Andrew Douglas, ei ELO, "Rydw i'n falch dros ben o gyrhaeddiadau Jasmine. Mae Health Aspire wrth eu boddau gyda'i gwaith hi, ac o'r diwedd, mae Jasmine wedi dod o hyd i ffordd o ddianc rhag ei rhigol flaenorol. Llwyddiant Jasmine yw craidd y prosiect SYMF."

**Ydych chi'n gweithio gyda rhywun sy'n gymwys ar gyfer y prosiect Symud Ymlaen / Moving Forward?** Os hoffech chi gyfeirio rhywun aton ni, cwblhewch y ffurflenni cyfeirio ac asesiadau risg. Gellir dod o hyd i'r rhain ar y porth cyfeiriadau ar ein gwefan trwy [www.symfwales.org.uk](http://www.symfwales.org.uk)

## Mae Dysgwyr Dysgu am Oes yn Rasio Ymlaen!!

### Crynodeb o'r Newyddion

Beth Mae SYMF wedi'i Gyflawni Hyd yn Hyn...?

Crëwyd 458 o Gynlluni-  
au Datblygiad Personol

Mae gan 136 o  
gyfranogwyr gyfanswm  
o 283 achrediad

Dechreuwyd 157 o leoli-  
adau gwaith gyda 138 o  
gyflogwyr gwahanol

Cwblhawyd 20 o leoli-  
adau gwaith

Mae 85 o gyfranogwyr  
wedi cael eu priodoli i  
fentor gwirfoddol

Derbyniodd Rebeckah  
Thomas, gwirfoddolwr  
ym Mhen-y-bont, dys-  
tysgrif Canmoliaeth  
Uchel gan Huw Irranca-  
Davies AS, yn ystod  
Seremoni Wobreo  
BAVO/WCVA, ar gyfer ei  
chyfraniad mentora i  
SYMF. Cynhaliwyd y  
digwyddiad yng  
Ngwesty Heronston,  
Pen-y-bont ar 14eg  
Tachwedd 2014.

Am ragor o wybodaeth  
am y prosiect, ymwel-  
wch â gwefan SYMF

[www.symfwales.org.uk](http://www.symfwales.org.uk)

### Mae Jordan yn Seiclo i Lwyddiant!

#### Beth fuest ti'n ei wneud cyn i ti fynychu Dysgu am Oes?

Cyn Dysgu am Oes, roeddwn i'n dysgu trwy weithio yng Ngholeg Merthyr, yn dysgu fy sgiliau sylfaenol ac yn chwilio am leoliad gwaith nad oeddwn i wir yn ei fwynhau.

#### Pam ymunaist ti â Dysgu am Oes?

Ymunais i yn yr haf i wella fy sgiliau Saesneg a chyflogadwyedd, hefyd er mwyn gwella fy hyder wrth siarad â phobl eraill.

#### Fwynheuaist ti dy gyfnod yn Nysgu am Oes?

Do. Mwynheuais i ryngweithio a dysgu gyda'r staff a'r dysgwyr eraill. Dysgais i ar fy nghyflymder fy hunan gyda'r gefnogaeth roeddwn i ei hangen.

#### Beth gyrhaeddaist ti yn Nysgu am Oes?

Enillais i fy City & Guilds Mynediad Lefel 3 mewn Cyfathrebu a Dyfarniad Agored mewn Iechyd a Diogelwch. Mae gyda fi leoliad gwaith â thâl yn Vale Valley Cycle yn Aberdâr hefyd. Rydw i'n teimlo fy mod i wedi gwella fy hyder wrth siarad â phobl eraill ac mewn cyfweiliadau swydd.

#### Beth fydd dy gam nesaf ar ôl i dy gyfnod gyda Dysgu am Oes ddod i ben?

Bydda i'n dechrau ar fy lleoliad gwaith 6 mis yn

Vale Valley Cycle ddydd Llun. Rydw i'n edrych ymlaen ato fe'n fawr iawn. Rydw i wastad wedi bod ag awydd gweithio gyda beiciau.

#### Fyddet ti'n argymhell Dysgu am Oes i bobl eraill?

Does dim dwywaith amdani. Rhoddodd fy nhwtoriaid gefnogaeth wych i fi ac roedd hyn o les mawr i fi. Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd y bydda i'n parhau i'w gweld ar ôl i'm cyfnod gyda Dysgu am Oes ddod i ben. Rydw i wedi ennill cymwysterau a fydd yn fy helpu i ac wedi diogelu lleoliad gwaith yn gwneud rhywbeth y bydda i'n ei fwynhau.



### Pŵer Pedlera Dan

Cyfeiriwyd Dan at Dysgu am Oes Caerdydd yn ystod haf 2013 yn wreiddiol, ac fe aeth i Heol y Gadeirlan ddwywaith ond ni chafodd fynediad at Ddysgu am Oes. Cafodd ei ailgyfeirio ym Mawrth 2014. Roedd Dan yn 18 ac nid oedd wedi gwneud unrhyw beth ers gadael yr ysgol ddwy flynedd ynghynt. Dywedodd e wrthon ni na fyddai'n debygol o barhau am fwy na phythefnos ar y mwyaf. Roedd hynny'n 9 mis yn ôl ac mae e'n dal i ymwneud â'r prosiect yn llawn.

Daeth Dan i Dysgu am Oes heb hyder yn ei hunan na'i allu. Roedd yn arfer eistedd yn hapus yn ei ystafell yn chwarae gemau cyfrifiadur a phrin y byddai'n gadael y tŷ. Ar y dechrau, buodd e braidd yn amharod i ymuno ag unrhyw weithgareddau grŵp, ond tyfodd ei hyder dros amser a buodd yn cymdeithasu'n fwy gyda'r bobl eraill, gan gynnwys y tu allan i Ddysgu am Oes. Mae Dan bellach yn aelod poblogaidd o'r grŵp ac mae e wedi cynrychioli Dysgu am Oes a Llamau mewn sawl digwyddiad gan gynnwys 'The Impact Event' ac fe gafodd ei ffilmio i ddathlu penblwydd 1af y prosiect SYMF.

Mae Dan wedi ennill cymwysterau ESW mewn Cyfathrebu a TGCh ac mae e ar hyn o bryd yn gweithio tuag at Gymhwyso Rhif. Mae e wedi ennill Gwobreuon Agored mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle, Deall Teimladau, Setlo i Mewn a Chynnal Tenantiaeth, Paratoi i'r Gwaith, Prosiect Profiad Gwaith a Rheoli Arian. Mae e ar hyn o bryd yn gweithio tuag at Reoli Dicter a Lles Emosiynol a Pharatoi Pryd o Fwyd 3 Chwrs.

Mae Dan hefyd yn gwirfoddoli yn Pedal Power ym Mhontcanna am un diwrnod yr wythnos. Mae Dan wedi dangos ei fod yn fwy na pharod i weithio, ac mae e bellach yn chwilio am ei leoliad gwaith 6 mis.

